OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2020 Rhif 1556 (Cy. 328)

2020 No. 1556 (W. 328)

YMADAEL Â'R UNDEB EWROPEAIDD, CYMRU

EXITING THE EUROPEAN UNION, WALES

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

AGRICULTURE, WALES

Rheoliadau Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr a Materion Gwledig (Diwygiadau Amrywiol etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

The Direct Payments to Farmers and Rural Affairs (Miscellaneous Amendments etc.) (Wales) (EU Exit) Regulations 2020

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae Rhannau 2, 3 a 4 o'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraffau 2(1), 3(1) a (2) a 4(1) a (2) o Atodlen 5 i Ddeddf Amaethyddiaeth 2020 (p. 21) er mwyn gwneud darpariaeth yng nghyfraith yr UE a ddargedwir sy'n llywodraethu'r cynlluniau taliadau uniongyrchol ar gyfer sicrhau parhad cynllun y taliad sylfaenol yng Nghymru y tu hwnt i 2020.

Mae rheoliadau 2, 3, 4, 5 a 6 yn addasu Rheoliadau (EU) Rhif 1306/2013, 809/2014, 640/2014, 907/2014 a 908/2014 i'r graddau y mae'n angenrheidiol i gynllun y taliad sylfaenol weithredu'n effeithiol y tu hwnt i 2020. Mae'r Rheoliadau UE hynny'n cynnwys rhai o'r rheolau sy'n llywodraethu'r cynlluniau taliadau uniongyrchol yn ogystal â chynlluniau eraill o dan y Polisi Amaethyddol Cyffredin. Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r corff hwnnw o gyfreithiau i'r graddau ag y mae'n ymwneud â chynlluniau taliadau uniongyrchol yn unig.

Mae rheoliadau 7, 8 a 9 yn diwygio Rheoliad (EU) Rhif 1307/2013 ("y Rheoliad Taliadau Uniongyrchol"), Rheoliadau (EU) Rhif 639/2014 a 641/2014. Mae'r newidiadau hyn yn caniatáu i gynllun y taliad sylfaenol weithredu'n effeithiol y tu hwnt i 2020. Mae rheoliad 7(4) yn cyflwyno i'r Rheoliad Taliadau Uniongyrchol Erthygl 5A newydd sy'n darparu'r modd ar gyfer penderfynu terfyn y taliadau uniongyrchol y tu hwnt i 2020.

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

Parts 2, 3, and 4 of these Regulations are made in exercise of the powers conferred by paragraphs 2(1), 3(1) and (2) and 4(1) and (2) of Schedule 5 to the Agriculture Act 2020 (c. 21) in order to make provision in retained EU law governing the direct payment schemes for securing the continuation of the basic payment scheme in Wales beyond 2020.

Regulations 2, 3, 4, 5 and 6 modify Regulations (EU) No. 1306/2013, 809/2014, 640/2014, 907/2014 and 908/2014 to the extent necessary for the basic payment scheme to function effectively beyond 2020. Those EU Regulations contain some of the rules governing the direct payment schemes as well as other schemes under the Common Agricultural Policy. These Regulations amend that body of law insofar as it relates to the direct payment schemes only.

Regulations 7, 8 and 9 amend Regulation (EU) No. 1307/2013 ("the Direct Payments Regulation"), Regulations (EU) No. 639/2014 and 641/2014. These changes allow the basic payment scheme to function effectively beyond 2020. Regulation 7(4) introduces a new Article 5A to the Direct Payments Regulation which provides the manner in which to determine the direct payments ceiling beyond 2020.

Mae rheoliadau 2 i 9 hefyd yn diwygio cyfraith yr UE a ddargedwir sy'n ymwneud â'r cynlluniau taliadau uniongyrchol er mwyn—

(a) symleiddio dull gweinyddu'r cynllun a gwneud ei weithrediad yn fwy effeithlon ac effeithiol,

(b) dileu darpariaethau sydd wedi darfod neu nad ydynt yn cael eu defnyddio,

(c) dileu neu leihau'r beichiau ar bersonau sy'n gwneud cais am daliadau uniongyrchol o dan y cynllun neu y mae ganddynt hawl i'w cael,

(d) gwella'r ffordd y mae'r cynllun yn gweithredu mewn perthynas â phersonau sy'n gwneud cais am daliadau uniongyrchol o dan y cynllun neu y mae ganddynt hawl i'w cael,

(e) sicrhau bod sancsiynau a chosbau a osodir o dan y cynllun yn briodol a chymesur, ac

(f) cyfyngu ar gymhwysiad y cynllun i dir yng Nghymru yn unig.

Regulations 2 to 9 also amend the retained EU law relating to the direct payment schemes to—

(a) simplify the administration of the scheme and make its operation more efficient and effective,

(b) remove provisions which are spent or not in use,

(c) remove or reduce burdens on persons applying for, or entitled to, direct payments under the scheme,

(d) improve the way the scheme operates in relation to persons applying for, or entitled to direct payments under the scheme,

(e) ensure that sanctions and penalties imposed under the scheme are appropriate and proportionate, and

(f) limit the application of the scheme to land in Wales only.

Mae Rhan 4 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio deddfwriaeth ddomestig sy'n ymwneud â thaliadau uniongyrchol.

Part 4 of these Regulations amend domestic legislation which relates to direct payments.

Mae rheoliad 10 yn diwygio Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (System Integredig Gweinyddu a Rheoli a Gorfodi a Thrawsgydymffurfio) (Cymru) 2014 (O.S. 2014/3223 (Cy. 328)), er mwyn sicrhau bod modd ei weithredu ar gyfer cynllun y taliad sylfaenol yng Nghymru y tu hwnt i 2020. Mae rheoliad 10 hefyd yn mewnosod paragraff newydd yn Atodlen 1 (*Safonau ar gyfer Cyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol Da*) sy'n rhoi manylion am y cyfyngiadau ar drosi, aredig neu ailhadu glaswelltir parhaol amgylcheddol-sensitif. Mae hyn yn sicrhau bod cydweddu â'r newidiadau a wnaed gan reoliad 2 i Reoliad (EU) Rhif 1306/2013.

Regulation 10 amends the Common Agricultural Policy (Integrated Administration and Control System and Enforcement and Cross Compliance) (Wales) Regulations 2014 (S.I. 2014/3223 (W. 328)), in order to secure its operability for the basic payment scheme in Wales beyond 2020. Regulation 10 also inserts a new paragraph into Schedule 1 (*Standards for Good Agricultural and Environmental Condition*) which details the restrictions on converting, ploughing or reseeding environmentally sensitive permanent grassland. This ensures alignment with the changes made by regulation 2 to Regulation (EU) No. 1306/2013.

Mae rheoliad 11 yn diwygio Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Rheoli a Gorfodi, Trawsgydymffurfio, Craffu ar Drafodiadau ac Apelau) 2014 (O.S. 2014/3263), ac mae'n gymwys o ran Cymru. Mae rheoliad 3 (awdurdod cymwys) y Rheoliadau hynny wedi ei ddiwygio i sicrhau ei fod yn cydweddu â chyfraith yr UE a ddargedwir sy'n ymwneud â thaliadau uniongyrchol.

Regulation 11 amends the Common Agricultural Policy (Control and Enforcement, Cross-Compliance, Scrutiny of Transactions and Appeals) Regulations 2014 (S.I. 2014/3263), and applies in relation to Wales. Regulation 3 (competent authority) of those Regulations is amended to ensure it aligns with the retained EU law relating to direct payments.

Mae rheoliad 12 yn diwygio Rheoliadau Cynllun Taliad Sylfaenol a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cymru) 2015 (O.S. 2015/1252 (Cy. 84)) i sicrhau ei fod yn cydweddu â'r newidiadau sy'n cael eu gwneud i gyfraith yr UE a ddargedwir sy'n ymwneud â thaliadau uniongyrchol gan y Rheoliadau hyn.

Regulation 12 amends the Common Agricultural Policy Basic Payment and Support Schemes (Wales) Regulations 2015 (S.I. 2015/1252 (W. 84)) to ensure it aligns with the changes being made to the retained EU law relating to direct payments by these Regulations.

Mae Rhan 5 o'r Rheoliadau hyn wedi ei gwneud drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 1 o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16) er mwyn ymdrin ag unrhyw fethiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd. Mae rheoliad 13 yn diwygio Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/688 (Cy. 132)), sy'n ymdrin ag unrhyw fethiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd. Mae rheoliad 13 yn dirymu rheoliadau 2, 4(2) a 5(2) a (3) i gydweddu â'r newidiadau a wnaed gan y Rheoliadau hyn a chan Reoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/104 (Cy. 17)).

Part 5 of these Regulations is made in exercise of the powers conferred by paragraph 1 of Schedule 2 to the European Union (Withdrawal) Act 2018 (c. 16) in order to address failures of retained EU law to operate effectively and other deficiencies arising from the withdrawal of the United Kingdom from the European Union. Regulation 13 amends the Common Agricultural Policy (Miscellaneous Amendments) (Wales) (EU Exit) Regulations 2019 (S.I. 2019/688 (W. 132)), which address failures of retained EU law to operate effectively and other deficiencies arising from the withdrawal of the United Kingdom from the European Union. Regulation 13 revokes regulations 2, 4(2) and 5(2) and (3) to align with changes made by these Regulations and by the Common Agricultural Policy (Direct Payments to Farmers) (Miscellaneous Amendments) (Wales) Regulations 2020 (S.I. 2020/104 (W. 17)).

Mae Rhan 6 o'r Rheoliadau hyn wedi ei gwneud drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 1 o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 er mwyn cywiro gwallau yn Rheoliadau Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/1281 (Cy. 225)) a Rheoliadau Materion Gwledig (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) (Rhif 3) 2019 (O.S. 2019/1376 (Cy. 242)).

Part 6 of these Regulations is made in exercise of the powers conferred by paragraph 1 of Schedule 2 to the European Union (Withdrawal) Act 2018 in order to correct errors in the Retained EU Law (Miscellaneous Amendments) (Wales) (EU Exit) Regulations 2019 (S.I. 2019/1281 (W. 225)) and the Rural Affairs (Miscellaneous Amendments) (Wales) (EU Exit) (No. 3) Regulations 2019 (S.I. 2019/1376 (W. 242)).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations.

2020 Rhif 1556 (Cy. 328)

YMADAEL Â'R UNDEB EWROPEAIDD, CYMRU

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

Rheoliadau Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr a Materion Gwledig (Diwygiadau Amrywiol etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

Gwnaed *16 Rhagfyr 2020*

Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2)

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt—

(a) mewn perthynas â Rhan 1, gan y darpariaethau a grybwyllir ym mharagraffau (b) ac (c);

(b) mewn perthynas â Rhannau 2, 3 a 4, gan baragraffau 2(1), 3(1) a (2), a 4(1) a (2) o Atodlen 5 i Ddeddf Amaethyddiaeth 2020(**1**);

(c) mewn perthynas â Rhannau 5 a 6, gan baragraff 1 o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018(**2**) ("Deddf 2018").

Mewn perthynas â Rhannau 5 a 6, mae'r gofyniad ym mharagraff 4(a) o Atodlen 2 (sy'n ymwneud ag ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol) i Ddeddf 2018 wedi ei fodloni.

(**1**) 2020 p. 21. Gweler paragraff 3(4) o Atodlen 5 am y diffiniad o "specified".

(**2**) 2018 p. 16. Gweler adran 20(1) am y diffiniad o "devolved authority".

2020 No. 1556 (W. 328)

EXITING THE EUROPEAN UNION, WALES

AGRICULTURE, WALES

The Direct Payments to Farmers and Rural Affairs (Miscellaneous Amendments etc.) (Wales) (EU Exit) Regulations 2020

Made *16 December 2020*

Coming into force in accordance with regulation 1(2)

The Welsh Ministers make these Regulations in exercise of the powers conferred on them by—

(a) in relation to Part 1, the provisions mentioned in paragraphs (b) and (c);

(b) in relation to Parts 2, 3 and 4, paragraphs 2(1), 3(1) and (2), and 4(1) and (2) of Schedule 5 to, the Agriculture Act 2020(**1**);

(c) in relation to Parts 5 and 6, paragraph 1 of Schedule 2 to the European Union (Withdrawal) Act 2018(**2**) ("the 2018 Act").

In relation to Parts 5 and 6, the requirement in paragraph 4(a) of Schedule 2 (relating to consultation with the Secretary of State) to the 2018 Act has been satisfied.

(**1**) 2020 c. 21. See paragraph 3(4) of Schedule 5 for the definition of "specified".

(**2**) 2018 c. 16. See section 20(1) for the definition of "devolved authority".

Yn unol ag adran 50(6)(c) ac (8) o Ddeddf Amaethyddiaeth 2020, a pharagraff 1(9) o Atodlen 7 i Ddeddf 2018, gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Senedd Cymru, ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad.

In accordance with section 50(6)(c) and (8) of the Agriculture Act 2020, and paragraph 1(9) of Schedule 7 to the 2018 Act, a draft of this instrument has been laid before, and approved by a resolution of Senedd Cymru.

RHAN 1

Rhagarweiniol

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr a Materion Gwledig (Diwygiadau Amrywiol etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020.

(2) Maent yn dod i rym fel a ganlyn—

(a) ac eithrio fel y darperir ar ei gyfer gan is-baragraff (b), daw'r Rheoliadau hyn i rym ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu;

(b) mae Rhannau 1, 5 a 6 a rheoliad 7(4) yn dod i rym drannoeth y diwrnod y gwneir y Rheoliadau hyn.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

RHAN 2

Taliadau Uniongyrchol: Deddfwriaeth Lorweddol

Diwygio Rheoliad (EU) Rhif 1306/2013

2.—(1) Mae Rheoliad (EU) Rhif 1306/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar ariannu, rheoli a monitro'r polisi amaethyddol cyffredin(**1**) wedi ei ddiwygio, i'r graddau y mae'n ymwneud â thaliadau uniongyrchol, fel a ganlyn.

(2) Yn lle Erthygl 2(1)(m) rhodder—

"(m)"appropriate authority" means the relevant authority for the constituent nation in which the regulations apply."

(**1**) EUR 2013/1306, a ddiwygiwyd mewn perthynas â chynlluniau taliadau uniongyrchol gan O.S. 2020/90 a 576. Mae EUR 2013/1306 wedi ei ddiwygio hefyd yn rhagolygol gydag effaith o ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu gan O.S. 2019/748 (fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2019/831), 763 (fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2019/812), 831 a 1402. Er hynny, yn rhinwedd y diwygiadau yn Rheoliadau Amathyddiaeth (Taliadau) (Diwygio, etc.) (Ymadael â'r UE) 2020, nid yw'r diwygiadau rhagolygol hyn yn cael effaith mewn perthynas â chynlluniau taliadau uniongyrchol.

PART 1

Introductory

Title, commencement, and application

1.—(1) The title of these Regulations is the Direct Payments to Farmers and Rural Affairs (Miscellaneous Amendments etc.) (Wales) (EU Exit) Regulations 2020.

(2) They come into force as follows—

(a) except as provided for by sub-paragraph (b), these Regulations come into force on implementation period completion day;

(b) Parts 1, 5 and 6 and regulation 7(4) come into force on the day after the day on which these Regulations are made.

(3) These Regulations apply in relation to Wales.

PART 2

Direct Payments: Horizontal Legislation

Amendment of Regulation (EU) No. 1306/2013

2.—(1) Regulation (EU) No. 1306/2013 of the European Parliament and of the Council on the financing, management and monitoring of the common agricultural policy(**1**) is amended, insofar as it relates to direct payments, as follows.

(2) For Article 2(1)(m) substitute—

"(m)"appropriate authority" means the relevant authority for the constituent nation in which the regulations apply."

(**1**) EUR 2013/1306, amended in relation to direct payment schemes by S.I. 2020/90 and 576. EUR 2013/1306 is also amended prospectively with effect from implementation period completion day by S.I. 2019/748 (as amended by S.I. 2019/831), 763 (as amended by S.I. 2019/812), 831 and 1402. However, by virtue of the amendments in the Agriculture (Payments) (Amendment, etc.) (EU Exit) Regulations 2020, these prospective amendments do not have effect in relation to direct payment schemes.

(3) Yn Erthygl 12—

(a) yn lle “must” rhodder “may”;

(b) yn lle “shall”, yn yr ail frawddeg, rhodder “may”;

(c) yn lle’r drydedd frawddeg rhodder—

“That system may cover the maintenance of the agricultural area as referred to in point (c) of Article 4(1) of Regulation (EU) No. 1307/2013.”

(4) Hepgorer Erthygl 26.

(5) Yn Erthygl 54—

(a) ym mharagraff 1, hepgorer “within 18 months”;

(b) ym mharagraff 3(a)—

(i) ym mhwynt (i), yn lle “EUR 100” rhodder “£100”;

(ii) ym mhwynt (ii)—

(aa) yn lle “EUR 100” rhodder “£100”;

(bb) yn lle “EUR 250” rhodder “£250”.

(6) Hepgorer Erthygl 55.

(7) Yn Erthygl 67—

(a) ym mharagraff 4(a), ar ôl “continuous area of land” mewnosoder “within Wales”;

(b) ym mharagraff 4(b), hepgorer “the payment for agricultural practices beneficial for the climate and the environment referred to in Chapter 3 of Title III of Regulation (EU) No 1307/2013;”.

(8) Yn Erthygl 69—

(a) hepgorer brawddeg derfynol paragraff 1;

(b) hepgorer paragraff 2.

(9) Yn Erthygl 70—

(a) ym mharagraff 1—

(i) hepgorer “and, as from 2016, at a scale of 1: 5 000,”;

(ii) hepgorer yr ail is-baragraff;

(b) hepgorer paragraff 2.

(10) Hepgorer Erthygl 71(2).

(11) Yn Erthygl 75—

(a) ym mharagraff 1, ar ôl “calendar year” mewnosoder “or in cases where it has not been possible to complete the verification of eligibility conditions by 30 June, upon completion.”;

(3) In Article 12—

(a) for “must” substitute “may”;

(b) for “shall”, in the second sentence, substitute “may”;

(c) for the third sentence substitute—

“That system may cover the maintenance of the agricultural area as referred to in point (c) of Article 4(1) of Regulation (EU) No. 1307/2013. ”

(4) Omit Article 26.

(5) In Article 54—

(a) in paragraph 1, omit “within 18 months”;

(b) in paragraph 3(a)—

(i) in point (i), for “EUR 100” substitute “£100”;

(ii) in point (ii)—

(aa) for “EUR 100” substitute “£100”;

(bb) for “EUR 250” substitute “£250”.

(6) Omit Article 55.

(7) In Article 67—

(a) in paragraph 4(a), after “continuous area of land” insert “within Wales”;

(b) in paragraph 4(b), omit “the payment for agricultural practices beneficial for the climate and the environment referred to in Chapter 3 of Title III of Regulation (EU) No 1307/2013;”.

(8) In Article 69—

(a) omit the final sentence of paragraph 1;

(b) omit paragraph 2.

(9) In Article 70—

(a) in paragraph 1—

(i) omit “and, as from 2016, at a scale of 1: 5 000,”;

(ii) omit the second subparagraph;

(b) omit paragraph 2.

(10) Omit Article 71(2).

(11) In Article 75—

(a) in paragraph 1, after “calendar year” insert “or in cases where it has not been possible to complete the verification of eligibility conditions by 30 June, upon completion.”;

(b) ym mharagraff 1(a)—

(i) hepgorer "but not before 16 October";

(ii) ar ôl "direct payments" mewnosoder "before the verification of eligibility conditions, to be carried out by the relevant authority pursuant to Article 74, has been finalised";

(c) ym mharagraff 2, ar ôl "paragraph 1" mewnosoder "(excluding advances for direct payments under paragraph 1(a))".

(12) Hepgorer Erthygl 77(6).

(13) Yn Erthygl 91—

(a) hepgorer ail is-baragraff paragraff 2;

(b) ym mharagraff 3(a), yn lle "the United Kingdom" rhodder "Wales".

(14) Yn nheitl Erthygl 94, hepgorer "of Member States".

(15) Yn Erthygl 97(3), yn lle "EUR 100" rhodder "£100".

(16) Hepgorer Erthyglau 105 a 106.

(17) Hepgorer Erthygl 108.

(18) Hepgorer is-baragraff terfynol Erthygl 111(1).

(19) Yn Erthygl 112, yn yr is-baragraff cyntaf, yn lle'r geiriau o "the Funds" hyd at y diwedd, rhodder "received in one year by a beneficiary is equal to or less than £1250."

(20) Yn Atodiad II, yn y rhes "Landscape, minimum level of maintenance", yn y bedwaredd golofn, ar ôl "measures for avoiding invasive plant species" mewnosoder—

". Restrictions on converting, ploughing or reseeding environmentally sensitive permanent grassland."

Diwygio Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) Rhif 640/2014

3.—(1) Mae Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) Rhif 640/2014 sy'n ategu Rheoliad (EU) Rhif 1306/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran y system integredig gweinyddu a rheoli a'r amodau ar gyfer gwrthod taliadau neu eu tynnu yn ôl a chosbau gweinyddol sy'n gymwys i daliadau uniongyrchol, cymorth ar gyfer datblygu gwledig a thrawsgydymffurfio(**1**), wedi ei ddiwygio, i'r graddau y mae'n ymwneud â thaliadau uniongyrchol, fel a ganlyn.

(**1**) EUR 2014/640, a ddiwygiwyd mewn perthynas â chynlluniau taliadau uniongyrchol gan O.S. 2020/90 ac mewn perthynas â chynlluniau taliadau uniongyrchol yn Lloegr gan O.S. 2020/551. Diwygiwyd EUR 2014/640 hefyd yn rhagolygol gydag effaith o ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu gan O.S. 2019/765. Er hynny, yn rhinwedd y diwygiadau yn Rheoliadau Amaethyddiaeth (Taliadau) (Diwygio, etc.) (Ymadael â'r UE) 2020, nid yw'r diwygiadau rhagolygol hyn yn cael effaith mewn perthynas â chynlluniau taliadau uniongyrchol.

(b) in paragraph 1(a)—

(i) omit "but not before 16 October";

(ii) after "direct payments" insert "before the verification of eligibility conditions, to be carried out by the relevant authority pursuant to Article 74, has been finalised";

(c) in paragraph 2, after "paragraph 1" insert "(excluding advances for direct payments under paragraph 1(a))".

(12) Omit Article 77(6).

(13) In Article 91—

(a) omit the second subparagraph of paragraph 2;

(b) in paragraph 3(a), for "the United Kingdom" substitute "Wales".

(14) In the title of Article 94, omit "of Member States".

(15) In Article 97(3), for "EUR 100" substitute "£100".

(16) Omit Articles 105 and 106.

(17) Omit Article 108.

(18) Omit the final subparagraph of Article 111(1).

(19) In Article 112, in the first subparagraph, for the words from "the Funds" to the end, substitute "received in one year by a beneficiary is equal to or less than £1250."

(20) In Annex II, in the row "Landscape, minimum level of maintenance", in the fourth column, after "measures for avoiding invasive plant species" insert—

". Restrictions on converting, ploughing or reseeding environmentally sensitive permanent grassland."

Amendment of Commission Delegated Regulation (EU) No. 640/2014

3.—(1) Commission Delegated Regulation (EU) No. 640/2014 supplementing Regulation (EU) No. 1306/2013 of the European Parliament and of the Council with regard to the integrated administration and control system and conditions for refusal or withdrawal of payments and administrative penalties applicable to direct payments, rural development support and cross compliance(**1**), is amended, insofar as it relates to direct payments, as follows.

(**1**) EUR 2014/640, amended in relation to direct payment schemes by S.I. 2020/90 and in relation to direct payment schemes in England by S.I. 2020/551. EUR 2014/640 is also amended prospectively with effect from implementation period completion day by S.I. 2019/765. However, by virtue of the amendments in the Agriculture (Payments) (Amendment, etc.) (EU Exit) Regulations 2020, these prospective amendments do not have effect in relation to direct payment schemes.

(2) Yn Erthygl 2(1), yn lle pwynt (22) rhodder—

"(22) 'use' in relation to area means the use of area in terms of the type of permanent grassland as defined in Article 4(1)(h) of Regulation (EU) No. 1307/2013, or areas of grassland, other than permanent grassland, or ground cover or the absence of a crop;".

(3) Yn Erthygl 5(2)—

(a) hepgorer pwynt (c);

(b) ym mhwynt (d), hepgorer y geiriau o "areas designated" hyd at y diwedd.

(4) Yn Erthygl 6—

(a) yn lle paragraff 1 rhodder—

"**1.** The relevant authority shall annually assess the quality of the identification system for agricultural parcels. Where the results of the quality assessment reveal deficiencies in the system, the relevant authority shall take appropriate remedial action.";

(b) yn lle paragraff 2 rhodder—

"**2.** The relevant authority shall perform the assessment referred to in paragraph 1 on the basis of a sample of reference parcels.";

(c) ym mharagraff 3, hepgorer "by 31 January 2021".

(5) Yn Erthygl 7(1), hepgorer "at United Kingdom level".

(6) Hepgorer is-baragraff terfynol Erthygl 9(3).

(7) Hepgorer Erthygl 10.

(8) Yn Erthygl 13—

(a) hepgorer ail is-baragraff paragraff 1;

(b) ar ôl is-baragraff terfynol paragraff 1 mewnosoder—

"All documents in support of an aid application, must be submitted by 31 December of that calendar year.";

(c) yn ail is-baragraff paragraff 3, yn lle "third" rhodder "second".

(9) Hepgorer ail is-baragraff Erthygl 16(1).

(10) Yn Erthygl 18(2), hepgorer "and (8)".

(11) Yn Erthygl 19a—

(a) yn lle paragraff 2 rhodder—

(2) In Article 2(1), for point (22) substitute—

"(22) 'use' in relation to area means the use of area in terms of the type of permanent grassland as defined in Article 4(1)(h) of Regulation (EU) No. 1307/2013, or areas of grassland, other than permanent grassland, or ground cover or the absence of a crop;".

(3) In Article 5(2)—

(a) omit point (c);

(b) in point (d), omit the words from "areas designated" to the end.

(4) In Article 6—

(a) for paragraph 1 substitute—

"**1.** The relevant authority shall annually assess the quality of the identification system for agricultural parcels. Where the results of the quality assessment reveal deficiencies in the system, the relevant authority shall take appropriate remedial action.";

(b) for paragraph 2 substitute—

"**2.** The relevant authority shall perform the assessment referred to in paragraph 1 on the basis of a sample of reference parcels.";

(c) in paragraph 3, omit "by 31 January 2021".

(5) In Article 7(1), omit "at United Kingdom level".

(6) Omit the final subparagraph of Article 9(3).

(7) Omit Article 10.

(8) In Article 13—

(a) omit the second subparagraph of paragraph 1;

(b) after the final subparagraph of paragraph 1 insert—

"All documents in support of an aid application, must be submitted by 31 December of that calendar year.";

(c) in the second subparagraph of paragraph 3, for "third" substitute "second".

(9) Omit the second subparagraph of Article 16(1).

(10) In Article 18(2), omit "and (8)".

(11) In Article 19a—

(a) for paragraph 2 substitute—

"**2.** The administrative penalty referred to in paragraph 1 shall be reduced by 50% if the difference between the area declared and the area determined does not exceed 10% of the area determined.";

(b) hepgorer paragraffau 3 a 4.

(12) Hepgorer Erthyglau 22 i 29.

(13) Hepgorer brawddeg derfynol Erthygl 38(1).

Diwygio Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 809/2014

4.—(1) Mae Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 809/2014 sy'n gosod rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (EU) Rhif 1306/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran y system integredig gweinyddu a rheoli, mesurau datblygu gwledig a thrawsgydymffurfio(**1**), wedi ei ddiwygio, i'r graddau y mae'n ymwneud â thaliadau uniongyrchol, fel a ganlyn.

(2) Hepgorer Erthygl 2.

(3) Hepgorer ail baragraff Erthygl 4.

(4) Yn Erthygl 6—

(a) ym mharagraff 2(f)(v), yn lle "national" rhodder "total";

(b) hepgorer paragraff 3(b).

(5) Yn Erthygl 14(1), hepgorer pwynt (h).

(6) Yn Erthygl 15—

(a) hepgorer paragraff 1b;

(b) ym mharagraff 2—

(i) yn yr ail is-baragraff, yn lle "Member States" rhodder "the relevant authority";

(ii) yn y trydydd is-baragraff, hepgorer y geiriau o "the payment for agricultural practices" hyd at "Regulation (EU) No. 1307/2013 or";

(c) hepgorer paragraff 2b;

(d) ym mharagraff 3, hepgorer yr ail is-baragraff.

(7) Yn Erthygl 17—

(a) hepgorer paragraff 2;

(b) yn ail is-baragraff paragraff 4, hepgorer y frawddeg derfynol;

(**1**) EUR 2014/809, a ddiwygiwyd mewn perthynas â chynlluniau taliadau uniongyrchol gan O.S. 2020/90 a 576. Mae EUR 2014/809 wedi ei ddiwygio hefyd mewn perthynas â chynlluniau taliadau uniongyrchol yn Lloegr gan O.S. 2020/510 a 575. Mae EUR 2014/809 hefyd wedi ei ddiwygio'n rhagolygol gydag effaith o ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu gan O.S. 2019/765. Er hynny, yn rhinwedd y diwygiadau yn Rheoliadau Amaethyddiaeth (Taliadau) (Diwygio, etc.) (Ymadael â'r UE) 2020, nid yw'r diwygiadau rhagolygol hyn yn cael effaith mewn perthynas â chynlluniau taliadau uniongyrchol.

"**2.** The administrative penalty referred to in paragraph 1 shall be reduced by 50% if the difference between the area declared and the area determined does not exceed 10% of the area determined.";

(b) omit paragraphs 3 and 4.

(12) Omit Articles 22 to 29.

(13) Omit the final sentence of Article 38(1).

Amendment of Commission Implementing Regulation (EU) No. 809/2014

4.—(1) Commission Implementing Regulation (EU) No. 809/2014 laying down rules for the application of Regulation (EU) No. 1306/2013 of the European Parliament and of the Council with regard to the integrated administration and control system, rural development measures and cross compliance(**1**), is amended, in so far as it relates to direct payments, as follows.

(2) Omit Article 2.

(3) Omit the second paragraph of Article 4.

(4) In Article 6—

(a) in paragraph 2(f)(v), for "national" substitute "total";

(b) omit paragraph 3(b).

(5) In Article 14(1), omit point (h).

(6) In Article 15—

(a) omit paragraph 1b;

(b) in paragraph 2—

(i) in the second subparagraph, for "Member States" substitute "the relevant authority";

(ii) in the third subparagraph, omit the words from "the payment for agricultural practices" to "Regulation (EU) No 1307/2013 or";

(c) omit paragraph 2b;

(d) in paragraph 3, omit the second subparagraph.

(7) In Article 17—

(a) omit paragraph 2;

(b) in the second subparagraph of paragraph 4, omit the final sentence;

(**1**) EUR 2014/809, amended in relation to direct payment schemes by S.I. 2020/90 and 576. EUR 2014/809 is also amended in relation to direct payment schemes in England by S.I. 2020/510 and 575. EUR 2014/809 is also amended prospectively with effect from implementation period completion day by S.I. 2019/765. However, by virtue of the amendments in the Agriculture (Payments) (Amendment, etc.) (EU Exit) Regulations 2020, these prospective amendments do not have effect in relation to direct payment schemes.

(c) yn lle paragraff 5 rhodder—

"**5.** The beneficiary shall unambiguously identify and declare the area of each agricultural parcel. ";

(d) hepgorer paragraff 6.

(8) Hepgorer Erthygl 18.

(9) Yn Erthygl 25, hepgorer "and shall not exceed 14 days".

(10) Hepgorer Erthygl 26(4).

(11) Hepgorer ail a thrydydd paragraff Erthygl 27.

(12) Yn Erthygl 29(1)(d), yn lle "(6)" rhodder "(4)".

(13) Ym mhennawd Erthygl 30, hepgorer "other than the payment for agricultural practices beneficial for the climate and environment".

(14) Yn lle Erthygl 30 rhodder—

"For area-related aid schemes the control sample for on-the-spot checks carried out each year shall cover at least:

(a) 3% of all beneficiaries applying for the basic payment scheme in accordance with Title III of Regulation (EU) No. 1307/2013 (which includes the redistributive payment, and the payment for young farmers); and

(b) 5% of all beneficiaries applying for area-related payments under voluntary coupled support in accordance with Chapter 1 of Title IV of Regulation (EU) No 1307/2013."

(15) Hepgorer Erthygl 31.

(16) Yn lle Erthygl 33 rhodder—

"For animal aid schemes, the control sample for on-the-spot checks carried out each year shall for each of the aid schemes cover at least 5% of all beneficiaries applying for that respective aid scheme."

(17) Hepgorer Erthygl 33a.

(18) Yn Erthygl 34—

(a) yn lle paragraff 2 rhodder—

"**2.** For the purposes of Article 30, the sample selection shall ensure that:

(a) a proportion of the control population is selected randomly;

(b) the remaining number of beneficiaries in the control sample is selected on the basis of a risk analysis.";

(c) for paragraph 5 substitute—

"**5.** The beneficiary shall unambiguously identify and declare the area of each agricultural parcel.";

(d) omit paragraph 6.

(8) Omit Article 18.

(9) In Article 25, omit "and shall not exceed 14 days".

(10) Omit Article 26(4).

(11) Omit the second and third paragraphs of Article 27.

(12) In Article 29(1)(d), for "(6)" substitute "(4)".

(13) In the heading of Article 30, omit "other than the payment for agricultural practices beneficial for the climate and environment".

(14) For Article 30 substitute—

"For area-related aid schemes the control sample for on-the-spot checks carried out each year shall cover at least:

(a) 3% of all beneficiaries applying for the basic payment scheme in accordance with Title III of Regulation (EU) No. 1307/2013 (which includes the redistributive payment, and the payment for young farmers); and

(b) 5% of all beneficiaries applying for area-related payments under voluntary coupled support in accordance with Chapter 1 of Title IV of Regulation (EU) No 1307/2013."

(15) Omit Article 31.

(16) For Article 33 substitute—

"For animal aid schemes, the control sample for on-the-spot checks carried out each year shall for each of the aid schemes cover at least 5% of all beneficiaries applying for that respective aid scheme."

(17) Omit Article 33a.

(18) In Article 34—

(a) for paragraph 2 substitute—

"**2.** For the purposes of Article 30, the sample selection shall ensure that:

(a) a proportion of the control population is selected randomly;

(b) the remaining number of beneficiaries in the control sample is selected on the basis of a risk analysis.";

(b) hepgorer paragraffau 3, 4 a 4a;

(c) ym mharagraff 5—

(i) yn lle "shall" rhodder "may";

(ii) ym mhwynt (d) ar ôl "that" mewnosoder "may".

(19) Yn Erthygl 36—

(a) ym mharagraff 2—

(i) hepgorer "and (b)";

(ii) yn lle "3%" rhodder "1%";

(b) ym mharagraff 3—

(i) hepgorer "and (b)";

(ii) hepgorer yr ail, trydydd a phedwerydd is-baragraff;

(c) ym mharagraff 5—

(i) yn lle "2, 3 and 4" rhodder "2 and 3";

(ii) hepgorer "and (b)".

(20) Hepgorer Erthygl 37(3).

(21) Yn Erthygl 38—

(a) hepgorer y frawddeg derfynol ym mharagraff 5;

(b) hepgorer paragraff 6;

(c) hepgorer paragraff 9;

(d) ym mharagraff 10, hepgorer "or permanent pastures".

(22) Yn Erthygl 39—

(a) hepgorer brawddeg gyntaf paragraff 2;

(b) hepgorer paragraff 3.

(23) Hepgorer Erthygl 40a.

(24) Yn Erthygl 41—

(a) hepgorer is-baragraff terfynol paragraff 1;

(b) yn is-baragraff terfynol paragraff 2—

(i) hepgorer "or by means of monitoring in accordance with Article 40a,";

(ii) hepgorer "or by monitoring" yn y ddau le y mae'n digwydd;

(iii) hepgorer y frawddeg derfynol.

(25) Yn Erthygl 42(1), yn yr ail is-baragraff—

(a) hepgorer "at least 50% of";

(b) yn lle "shall", yn y ddau le y mae'n digwydd, rhodder "may".

(26) Hepgorer Erthygl 44.

(27) Yn Erthygl 68—

(a) ym mharagraff 1—

(i) yn yr is-baragraff cyntaf, hepgorer ", as it has effect in EU law";

(ii) hepgorer yr ail is-baragraff;

(b) omit paragraphs 3, 4 and 4a;

(c) in paragraph 5—

(i) for "shall" substitute "may";

(ii) in point (d), after "that" insert "may".

(19) In Article 36—

(a) in paragraph 2—

(i) omit "and (b)";

(ii) for "3%" substitute "1%";

(b) in paragraph 3—

(i) omit "and (b)";

(ii) omit the second, third and fourth subparagraphs;

(c) in paragraph 5—

(i) for "2, 3 and 4" substitute "2 and 3";

(ii) omit "and (b)".

(20) Omit Article 37(3).

(21) In Article 38—

(a) omit the final sentence in paragraph 5;

(b) omit paragraph 6;

(c) omit paragraph 9;

(d) in paragraph 10, omit "or permanent pastures".

(22) In Article 39—

(a) omit the first sentence of paragraph 2;

(b) omit paragraph 3.

(23) Omit Article 40a.

(24) In Article 41—

(a) omit the final subparagraph of paragraph 1;

(b) in the final subparagraph of paragraph 2—

(i) omit "or by means of monitoring in accordance with Article 40a,";

(ii) omit "or by monitoring" in both places that it occurs;

(iii) omit the final sentence.

(25) In Article 42(1), in the second subparagraph—

(a) omit "at least 50% of";

(b) for "shall", in both places that it occurs, substitute "may".

(26) Omit Article 44.

(27) In Article 68—

(a) in paragraph 1—

(i) in the first subparagraph, omit ", as it has effect in EU law";

(ii) omit the second subparagraph;

(b) ym mharagraff 4, yn lle “shall” rhodder “may”.

(28) Yn Erthygl 69(1), hepgorer brawddeg derfynol yr is-baragraff cyntaf.

(29) Yn Erthygl 70—

(a) ym mharagraff 3, hepgorer y geiriau o “or by using” hyd at “equivalent value”;

(b) hepgorer paragraff 4.

(30) Hepgorer Erthyglau 70a a 70b.

(31) Yn Erthygl 72—

(a) hepgorer is-baragraff terfynol paragraff 1;

(b) ym mharagraff 2, hepgorer “checked by monitoring in accordance with Article 70a,”;

(c) ym mharagraff 3, hepgorer y frawddeg derfynol yn yr is-baragraff cyntaf;

(d) ym mharagraff 4, hepgorer ail frawddeg yr is-baragraff cyntaf.

Diwygio Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) Rhif 907/2014

5. Yn Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) Rhif 907/2014 dyddiedig 11 Mawrth 2014 sy’n ategu Rheoliad (EU) Rhif 1306/2013 Senedd Ewrop a’r Cyngor o ran asiantaethau talu a chyrff eraill, rheolaeth ariannol, clirio cyfrifon, gwarannau a defnyddio’r ewro(**1**), hepgorer Erthygl 11, i’r graddau y mae’n ymwneud â thaliadau uniongyrchol.

Diwygio Rheoliad Gweithredu’r Comisiwn (EU) Rhif 908/2014

6.—(1) Mae Rheoliad Gweithredu’r Comisiwn (EU) Rhif 908/2014 sy’n gosod rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (EU) Rhif 1306/2013 Senedd Ewrop a’r Cyngor o ran asiantaethau talu a chyrff eraill, rheolaeth ariannol, clirio cyfrifon, rheolau ar wiriadau, gwarannau a thryloywder(**2**) wedi ei ddiwygio, i’r graddau y mae’n ymwneud â’r taliadau uniongyrchol, fel a ganlyn.

